



**Cofnodion y CBC wedi'u cadarnhau
Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF)
08 Ebrill 2025 am 13:30 o'r gloch
Wyneb a wyneb ac ar Microsoft Teams**

Aelodau:

Paul Worthington (PW) Cadeirydd PPF ac Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru
Nia Roberts (NR) Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru
Abigail Harris (AH) Prif Swyddog Gweithredol, BIP Bae Abertawe

Yn Bresennol:

Huw George (HG) Prif Gomisiynydd, CBC GIG Cymru
Claire Harding (CH) Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio Corfforaethol a Swyddfa Rheoli Prosiectau (PMO), CBC GIG Cymru
George Galletly (GG) Cyfarwyddwr Dros Dro Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth, CBC GIG Cymru
Stacey Taylor (ST) Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth/Dirprwy Brif Gomisiynydd, CBC GIG Cymru
Gwen Kohler (GK) Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Gwerth, CBC GIG Cymru
Jacqui Maunder (JM) Ysgrifennydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Corfforaethol, CBC GIG Cymru
Ross Whitehead (RW) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ambiwllans ac 111

Ymddiheuriadau:

Hayley Thomas (HT) Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Ian Green (IG) Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg, CBC GIG Cymru

Cofnodion:

Maxine Evans (ME) Swyddog Llywodraethu Corfforaethol, CBC GIG Cymru

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch.

Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
PPF25/016	1.1 Croeso a Chyflwyniadau Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams ac yn bersonol yn Ystafell Gyfarfod Fawr Charnwood. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio at ddibenion gweinyddol. Cafwyd cyflwyniadau.
PPF25/017	1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.
PPF25/018	1.3 Datganiadau o Fuddiant



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol ar wahân i'r rhai a oedd eisoes wedi'u cofrestru.
PPF25/018	<p>1.4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2025 Cododd Claire Harding (CH) nifer fach o bwyntiau yn ymwneud â PPF25/006 a PPF25/008 y byddai hi'n eu trafod gyda Jacqui Maunder (JM) y tu allan i'r cyfarfod.</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.</p>
PPF25/019	<p>1.5 Cofnod Gweithredu Nododd yr aelodau y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a amlinellwyd yn y log gweithredu a chytunwyd fod y camau gweithredu a nodir fel rhai 'wedi'u cau' wedi'u cwblhau.</p>
PPF25/020	<p>2.1 Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) y Pwyllgor Comisiynu ar y Cyd 2025 Atgoffodd CH yr aelodau fod y CBC wedi etifeddu 3 chynllun sy'n bodoli eisoes gan y sefydliadau rhagflaenol. Mae safbwynt chwarter 4 yn erbyn y cynlluniau hyn ar y gweill ar hyn o bryd a chaiff ei gyflwyno i is-bwyllgor y PPF yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mehefin.</p> <p>Mae cynllun gweithredu ar gyfer Cynllun Sylfaen Blynnyddol 2025/26, a lofnodwyd gan y CBC ar 18 Mawrth 2025, yn cael ei ddatblygu, gyda uwch-swyddog cyfrifol wedi'u nodi ar draws y rhaglen drawsnewid fel galluogwyr ar gyfer y cynllun. Nodwyd bod trafodaethau gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd (BI) sydd wedi cynnig cydweithio ar elfennau o'r cynllun gweithredu ar y gweill.</p> <p>Cynghorodd CH y bydd y cerrig milltir lefel uchel ar gyfer y Cynllun Tymor Canolig Canolig (IMTP) tair blynedd 2026/29 yn cael eu hadolygu gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) y CBC a'u cyflwyno i is-bwyllgor y PPF i gael sicrwydd.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Cynllun Gweithredu ar gyfer 2025/26 a cherrig milltir lefel uchel ar gyfer 2026/29 i'w cyflwyno i gyfarfod is-bwyllgor y PPF ym mis Mehefin.</p> <p>Diolchodd Abigail Harris (AH) i CH am y diweddariad a nododd fod y gyfres o gynlluniau ar draws Cymru gyfan, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (LIC), mewn gwahanol sefyllfaoedd. Awgrymodd, pan geir eglurder, y dylid adlewyrchu hyn yng nghyfarfod nesaf y CBC i ddeall beth allai hyn ei olygu i gynllun y CBC a'i weithrediad.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Cododd AH bwynt pellach ynghylch y gwasanaethau sydd o dan y llinell y cytunwyd arni fel rhan o'r cynllun a sut mae'r risgiau cysylltiedig yn cael eu rheoli, gan awgrymu y dylid cynnwys hyn yn y rhaglen waith barhaus. Ymatebodd Huw George (HG) y byddai tryloywder ynghylch risgiau gweddilliol y cynllun yn ddarn hollbwysig o waith i'w wneud dros y misoedd nesaf yn dilyn adborth gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Tynnwyd sylw at y cyhoeddiad ddoe gan Ysgrifennydd y Cabinet, gyda disgwyliadau penodol ynghylch gofal wedi'i gynllunio a rôl y CBC wrth gomisiynu rhannau o ddarpariaeth y sector annibynnol ar lefel genedlaethol. Byddai eglurder ynghylch cyfrifoldebau'r CBC yn allweddol i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu na bylchau. Dywedodd HG fod y CBC yn dal i aros am eglurder gan Lywodraeth Cymru ond y byddai angen deall y llywodraethu a'r adnoddau sy'n sail i hyn.</p> <p>Soniodd Nia Roberts (NR) nad oedd hi'n ymwybodol o gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet a beth y byddai hyn yn ei olygu o ran disgwyliadau gwasanaeth cyn etholiad Senedd 2026. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid dosbarthu trawsgrifiad yr araith i aelodau lleyg y CBC.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Trawsgrifiad o gyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet i'w ddosbarthu i aelodau'r CBC.</p>
PPF25/021	<p>3.1 Cofrestr Risgiau'r Cyd-bwyllgor Comisiynu – Risgiau a neilltuwyd i'r Is-bwyllgor Perfformiad Cynllunio a Chyllid</p> <p>Cyflwynodd JM yr adroddiad cyntaf ar neilltuo risg o'r gofrestr risg gyffredinol i bob is-bwyllgor ar gyfer monitro a chraffu. Cafodd 14 risg sgôr o 15 ac uwch, ac mae saith ohonynt wedi'u neilltuo i'r is-bwyllgor hwn.</p> <p>Dywedodd JM fod Ross Whitehead (RW) wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod heddiw i gefnogi trafodaeth yn benodol ynghylch Risg 77 - Comisiynu capasiti digonol ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans Brys.</p> <p>Cododd NR bryder ynghylch y parth risg CTM a neilltuwyd i Risg 77, sef cyhoeddusrwydd neu enw da andwyol, gan deimlo y dylai hyn ganolbwyntio mwy ar y claf, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch ac ansawdd. Adleisiwyd hyn gan aelodau eraill.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Parth risg ar gyfer Risg 77 i'w ddiwygio i <i>Ddiogelwch a Lles - Cleifion/Staff/Y Cyhoedd ac Ansawdd/Cwynion/Sicrwydd/Chanlyniadau Cleifion</i></p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch y 14 risg yn gyfan gwbl, a ffocws penodol ar Risg 78 - Defnyddio Capasiti Ambiwlansys Brys, sef y risg goch uchaf i'r CBC gyda sgôr o 25. Eglurodd JM fod Risg 78 wedi'i neilltuo i'r is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau i'w graffu a'i fonitro.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	<p>Cwestiynodd AH hefyd y disgrifiad o Risg 77, gyda'r angen i fod yn glir ynghylch risg y CBC fel comisiynydd yn erbyn y risg system gyfan gan nodi bod y CBC yn comisiynu digon o gapasiti ond nad yw'r capasiti ar draws y system yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.</p> <p>Ymatebodd RW fod y capasiti a gomisiynwyd yn seiliedig ar asesiad galw a chapasiti yn 2019 a bod angen adolygiad llawn o'r risg hon yng ngoleuni'r model gweithredu newidiol gan Lywodraeth Cymru sy'n cyflwyno categori porffor ychwanegol ar gyfer ataliad y galon a chategori coch wedi'i ddiweddarau. Bydd hyn yn profi maint, graddfa a math yr adnoddau ambiwlans y mae'r CBC yn eu comisiynu.</p> <p>Yn ogystal, mewn ymateb i'r argymhellion o'r ymchwiliad i Arena Manceinion, mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) wedi cynnal asesiadau sy'n cynnig bod angen twf mewn adnoddau i'w galluogi i gyflawni'r argymhellion. Mae'r tîm yn craffu ar yr asesiadau a bydd angen iddynt ystyried y gwaith galw a chapasiti yn y dyfodol i sicrhau bod y gwasanaethau a gomisiynir yn bodloni'r gofynion newidiol.</p> <p>Aeth RW ymlaen i dynnu sylw at sylwadau diweddar Ysgrifennydd y Cabinet ar weithio rhanbarthol a'r goblygiadau posibl ar gyfer capasiti ambiwlansys, yn enwedig ar gyfer cyflyrau aciwt iawn fel strôc.</p> <p>Cododd y Cadeirydd ei bryderon ynghylch mesur a monitro perfformiad ar reoli strôc.</p> <p>Ymatebodd RW nad oedd yn glir pa gategory y byddai strôc yn dod oddi tano ar hyn o bryd ond bod darn o waith ar y gweill i sicrhau bod byrddau iechyd yn gallu cael mynediad at elfen ambiwlans taith y claf, gan nodi bod lefel uchel o amrywiad o ran yr ymyriadau ar gyfer strôc sy'n digwydd.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i RW am ei bresenoldeb a'i fewnwelediad i risg yr ambiwlans.</p> <p>Cododd AH ymholiad mewn perthynas â Risg 03 - Oedi Llawfeddygaeth Blastig. Atgoffodd yr aelodau am y cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru tua diwedd 2024/25 i gefnogi cyflawni targedau amseroedd aros. Byddai angen parhau i ddarparu cyllid ychwanegol yn 2025/26 ond bydd amseroldeb y cadarnhad yn hanfodol er mwyn sicrhau gwell gwerth wrth gyflawni'r cynlluniau gweithgaredd sydd ar waith. Ailadroddodd Stacey Taylor (ST) y drafodaeth gynharach ar asesu risg yng nghynllun y CBC ac y dylid adlewyrchu hyn yn yr iteriad nesaf o'r gofrestr risg.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
PPF25/022	<p>4.1 Adroddiad Perfformiad Ariannol y Cyd-bwyllgor Comisiynu – Mis 11 2024-2025</p> <p>Hysbyswyd yr aelodau am ddiffyg o £6.9 miliwn yn 2024-25 Diwedd blwyddyn a oedd yn unol â'r rhagolygon. Dywedodd Gwen Kohler (GK) fod yr incwm disgwylidig ar gyfer gweithgaredd yn GIG Lloegr wedi'i ddatrys gyda LIC yn cadarnhau cyllid anghylchol o £8.9 miliwn i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn, a thrwy hynny liniaru'r risg ariannol.</p> <p>Roedd y sefyllfa hefyd wedi cael ei helpu gan arbedion a gyflawnwyd drwy ddatblygiadau anghylchol nad oeddent wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn fel y cynlluniwyd.</p> <p>Diolchodd ST i'w thîm am reoli'r CBC i sefyllfa fwy ffafriol na'r rhai a ragwelwyd ar rai adegau drwy gydol y flwyddyn. Pwysleisiodd, fodd bynnag, y bydd y sefyllfa gorwariant yn heriol wrth fynd i mewn i 2025/26 ac nad yw'r cynllun yn cynnwys unrhyw ragolygon wrth gefn i liniaru na rheoli gorberfformiad ar y Contractau Hirdymor (LTAs) o fewn y sefyllfa ariannol. Bydd ymgysylltu â darparwyr GIG Cymru a darparwyr yn Lloegr yn allweddol, gyda ffocws penodol ar reoli atgyfeiriadau ar gyfer darparwyr yn Lloegr.</p> <p>Nododd GT fod IPFR yn cynrychioli her sylweddol o ran gorwariant; mae rhai o'r costau hyn yn barhaus a bydd angen eu rhagweld a'u rheoli'n ofalus.</p>
PPF25/023	<p>4.2 Adroddiad Perfformiad y Cyd-bwyllgor Comisiynu</p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad perfformiad ar gyfer mis Rhagfyr 2024. Nodwyd bod yr adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i is-bwyllgor blaenorol y PPF yn ei gyfarfod ym mis Chwefror. Cyngorodd ST fod amseriad y cyfarfod o'i gymharu â chyhoeddi'r adroddiad ychydig yn anghyson. Roedd aliniad dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael ei drafod gyda JM i sicrhau y gallai'r is-bwyllgor roi sicrwydd priodol ac amserol i'r CBC.</p> <p>Cymerwyd bod yr adroddiad wedi'i ddarllen gyda'r pwyntiau canlynol wedi'u hamlygu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Diweddariad ar wasanaethau sy'n cael eu cynyddu, gan gynnwys dad-gynyddu plastigau a chynyddu bariatreg yn Salford i Lefel 3.• Yr heriau gyda gwasanaethau iechyd meddwl diogelwch canolig, gan gynnwys effaith y digwyddiad tân a'r angen i foderneiddio cyfleusterau presennol.



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem ar yr Agenda
	Cydnabu ST yr angen am adroddiad perfformiad newydd a fydd yn dwyn ynghyd elfennau cyllid, perfformiad ac ansawdd gwaith y CBC, gan nodi bod gwaith datblygu ar hyn wedi dechrau.
PPF25/024	<p>4.3 Adroddiad Cryno Perfformiad Cynllunio a Chyllid a dderbyniwyd yng Nghyfarfod CBC Mawrth 2025</p> <p>Derbyniwyd yr Adroddiad Cryno Cynllunio, Perfformiad a Chyllid er gwybodaeth a sicrwydd.</p> <p>Esboniodd JM fod yr adroddiad yn cael ei rannu ag ysgrifenyddion BI i'w ystyried a'i gynnwys ar eu his-bwyllgorau cynllunio, perfformiad a chyllid priodol. Gwneir yr un peth ar gyfer yr is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau ar gyfer y pwyllgorau ansawdd a diogelwch cleifion perthnasol yn y BI. Mae'r adroddiadau at ddibenion gwybodaeth yn bennaf, i ddangos bod y CBC yn darparu sicrwydd ac yn cyfathrebu'n effeithiol.</p>
PPF25/025	<p>4.4 Blaengynllun Busnes</p> <p>Cyflwynodd JM y Cynllun Busnes Ymlaen ar gyfer y deuddeg mis nesaf er gwybodaeth, gan nodi y byddai'n ymddangos fel adroddiad penodol i'r CBC ym mis Mai 2025 fel rhan o gynllun busnes cyffredinol y pwyllgor.</p> <p>Soniodd GG am ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y CBC ac awgrymodd y dylid cynnwys hyn yn y cynllun ymlaen llaw.</p> <p>CAM GWEITHREDU: Cynnwys datblygiad strategaeth hirdymor y CBC yn y cynllun busnes ymlaen llaw.</p>
PPF25/026	<p>5.1 Unrhyw Fusnes Arall</p> <p>Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.</p>
PPF25/027	<p>5.2 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygu unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol</p> <p>Nid oedd unrhyw eitemau i'w gohirio na'u huwchgyfeirio ar yr achlysur hwn.</p>
PPF25/028	<p>5.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben am 16:00pm. Mae'r cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 10 Mehefin 2025.</p>